

# Gwasanaethau Therapi Galwedigaethol i Blant

Mai 2019

Mae'n tîm Therapi Galwedigaethol Paediatreg Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gyda phlant o dan 18 oed sydd â chyflyrau iechyd parhaol sylweddol sy'n effeithio eu hunain a'u teuluoedd wrth fyw eu bywydau bob dydd yn eu cartrefi a'u cymunedau.

Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Chod Ymddygiad Therapi Galwedigaethol (2016), nod y tîm yw cynorthwyo teuluoedd i oresgyn eu rhwystrau ac adeiladu ar eu cryfderau, gan ddarparu'r lefelau angenrheidiol o wybodaeth a chynghor i gefnogi teuluoedd i gyflawni eu canlyniadau.

Pan fydd angen help arbenigol mae'r tîm yn gallu darparu cynlluniau canllawiau Symud a Thrin, adroddiadau tai, a chynghor ar gael offer ac addasiadau pan mai dyna fydd y datrysiad gorau.

## **Pwy ydym ni?**

Mae'r tîm yn rhan o Wasanaeth Anabledd Corfforol y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi eu lleoli yn Neuadd Y Sir. Mae tri Therapydd Galwedigaethol rhan amser ac rydym yn cael cefnogaeth Swyddog Anabledd un diwrnod yr wythnos. Mae'r tîm yn cael ei reoli gan Therapydd Galwedigaethol a Arweinir gan Ymgynghorydd. Darperir cefnogaeth weinyddol gan y tîm Gweinyddol Lleol ar 01352 803444.

## **Atgyfeiriadau**

Mae'r tîm yn hapus i gymryd atgyfeiriadau gan deuluoedd eu hunain, ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol, a chydweithwyr yn y sector dai a'r trydydd sector. Mae'r atgyfeiriadau yn dod ar ffurf sgwrs 'Beth sy'n Bwysig', gwybodaeth bersonol sylfaenol a chaniatâd ar gyfer asesiad.

Mae'r dogfennau hyn yn cefnogi'r Ddeddf i weithio mewn partneriaeth gyda theuluoedd a gweithwyr proffesiynol eraill, drwy sicrhau fod y rhai sy'n cael eu hatgyfeirio yn hapus i weithio gyda'r tîm a sicrhau fod gwybodaeth cysylltu cyfredol gennym.

Gellir cael ffurflenni atgyfeirio drwy ffonio 01352 803444.

Gellir anfon atgyfeiriadau wedi eu cwblhau drwy'r post neu ar e-bost diogel fel dogfennau pdf at [SSDUTY@flintshire.gov.uk](mailto:SSDUTY@flintshire.gov.uk).

## **Brysbennu**

Mae atgyfeiriadau a dderbynnir yn cael eu sgrinio gan y rheolwr o fewn 10 diwrnod gwaith a rhoddir cyngor am sefydliadau eraill os nad ydynt yn briodol. Mae'n bosib y bydd y rheolwr yn gofyn am wybodaeth bellach er mwyn cefnogi'r penderfyniad hwn. Bydd unrhyw gamau gweithredu y gellir eu cefnogi yn syth yn cael eu gwneud, fel darparu gwybodaeth neu gyngor i leihau risgiau.

Ni all y tîm ddarparu ymateb i argyfwng felly os oes gennych angen brys, cysylltwch â'ch Meddyg Teulu, NHS Direct neu 999 fel bo'n briodol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd atgyfeiriadau yn cael eu hychwanegu at ein rhestr aros er mwyn eu dyrannu pan fydd y gallu gan y tîm. Byddwn yn anfon llythyr atoch i ddweud ein bod wedi derbyn eich atgyfeiriad ac y bydd eich plentyn neu'r plentyn yr ydych wedi ei atgyfeirio wedi eu hychwanegu ar y rhestr atgyfeirio. Byddwn yn sicrhau fod y teulu yn cael llythyr pan fo'n briodol.

## **Aros**

Ychydig fisoedd sydd yn rhaid aros ar gyfer y rhan fwyaf o achosion ac mae'r tîm yn gweithio mor galed ag y gallant er mwyn cwblhau eu gwaith gan sicrhau fod teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cefnogi. Os oes gennych unrhyw bryderon yn ystod y cyfnod aros hwn neu os hoffech ofyn unrhyw gwestiynau, cysylltwch â 01352 803444 i adael neges neu anfonwch e-bost at [SSDUTY@flintshire.gov.uk](mailto:SSDUTY@flintshire.gov.uk) ac fe fyddwn yn ceisio cysylltu'n ôl â chi cyn gynted â phosib.

## **Asesiadau**

Mae pob asesiad yn cychwyn gyda'ch plentyn a'ch teulu a beth sy'n bwysig i chi a beth hoffech ei gyflawni yn y dyfodol. Mae'n rhoi cyfle i adlewyrchu ar beth sy'n gweithio'n dda a pha bethau sydd ddim yn mynd mor dda. Bydd yr holl opsiynau yn cael eu hystyried a'u trafod cyn creu cynllun.

Mae'n bosib y bydd hyn yn golygu mwy nag un ymweliad ac y bydd rhaid i bobl eraill gynorthwyo i gasglu'r holl wybodaeth a gwneud i bethau weithio. Bydd hyn yn cael ei gofnodi ar ein system electronig PARIS a byddwch yn derbyn copi yn ogystal ag unrhyw ffurflenni eraill y byddwn yn eu cwblhau.

## **Offer ac addasiadau**

Yn ogystal â darparu gwybodaeth a chymorth i chi, gall y tîm wneud cais am offer ac addasiadau.

Er mwyn sicrhau fod y rhain yn cael eu defnyddio'n deg er mwyn cefnogi pawb sydd mewn angen, bydd angen i'r Therapydd Galwedigaethol sicrhau fod y rhain yn hanfodol ar gyfer canlyniadau eich plentyn ac na allent gael eu darparu mewn unrhyw ffordd arall. Yna maent yn cael eu hystyried gan Rheolwr a / neu'r panel Anabledd Corfforol cyn gwneud cytundeb.

Pan fydd teuluoedd yn denantiaid i'r cyngor, cymdeithasau tai neu landlordiaid preifat, rhaid i'r landlordiaid gytuno i unrhyw addasiadau (gwaith adeiladu neu ffitio offer sefydlog), hyd yn oed os yw'r Therapydd Galwedigaethol yn eu cefnogi.

Weithiau gall Therapyddion Galwedigaethol gefnogi ceisiadau Grant Adnoddau Anabl ond rhaid cychwyn ar y gwaith yn dilyn yr asesiad er mwyn sicrhau fod teulu yn gymwys.

Mae achosion yn cael eu cadw'n agored tra bydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

Cysylltu

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mae croeso i chi gysylltu â  
SSDUTY@flintshire.gov.uk am wybodaeth bellach. (Ffon: 01352 803444)

Yn y cyfamser, mae'n bosib y bydd gwefan Dewis o ddefnydd i chi er mwyn i chi ddarganfod mwy ar beth sydd ar gael yn eich cymuned leol:

[www.dewis.wales](http://www.dewis.wales)

## Cwestiynau a chwynion

Os nad yw pethau'n mynd yn iawn

Rydym yn ymwybodol er gwaethaf ein hymdrechion gorau efallai y bydd achlysuron pan fydd gan ddefnyddiwr gwasanaeth gwyn.

Gellir gwneud unrhyw gwyn ynghylch y gwasanaethau drwy eich Therapydd Galwedigaethol neu Swyddog Anableddau neu Reolwr Tîm.

Os ydych yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol, dylech gysylltu â:

Y Swyddog Cwynion  
Gwasanaethau Cymdeithasol  
Tŷ Dewi Sant  
St David's Park  
Ewloe  
Sir y Fflint CH5 3XT

Rhif Ffôn: 01352 702623  
E-bost: [myview@flintshire.gov.uk](mailto:myview@flintshire.gov.uk)

Mae taflen "Eich Hawl i Ganmol a Chwyno" sy'n egluro sut i gyflwyno eich sylwadau a sut y byddant yn cael eu trin ar gael o'r un cyfeiriad neu ar ein gwefan yn [www.flintshire.gov.uk/careinfo](http://www.flintshire.gov.uk/careinfo)

I gael copi o'r daflen hon mewn braille, print bras, CD neu dap, ffoniwch 01352 803444.

Cyf: A10C